



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2019-20

Hydref 2021



Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

Diogelu iechyd — darparu gwybodaeth a chynghor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

Microbioleg — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Diogelu — darparu arbenigedd a chynghor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

Sgrinio — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

Gwybodaeth iechyd — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG — darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

Gwella iechyd — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhagor o wybodaeth

Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus)
Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Coluddion Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2019 tan ddiwedd mis Mawrth 2020.

Manylion Cyhoeddi:

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2019-20

Dyddiad: Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Hydref 2021

ISBN: 978-1-78986-154-459

I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn cysylltwch â:

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y
Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

Datganiad Sicrhau Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddarau'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddarau'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darlennydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddarau'n barhaus a gall fod mân addasiadau i'r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o'r naill flwyddyn i'r llall yn sgil diweddarau'r data. Weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

© 2021 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded
Llywodraeth Agored

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na
chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn
eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

This document is also available in English.

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	7
1.1	'Negeseuon allweddol' i'r cyhoedd	7
1.2	Cyflawni'r rhaglen	8
1.3	Llwybr sgrinio.....	8
2	PENAWDAU YSTADEGOL	10
3	DATA	12
3.1	Cwmpas a Chanran y rhai a gafodd brawf	12
3.2	Cyfranogwyr a wahoddwyd	24
3.3	Profion a awdurdodwyd	26
3.4	Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio	29
3.5	Presenoldeb mewn colonosgopi	30
3.6	Cyfraddau canfod.....	31
3.7	Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg o fewn pedair wythnos i Drefnu Apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio.....	31
3.8	Presenoldeb mewn sganiau CT	31
4	DIFFINIADAU	31
5	TÎM CYNHYRCHU A RHESTR CYN RHYDDHAU	34

Tablau a Graffiau

Tabl 1a: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2020..... 12

Graff 1a: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2020..... 13

Tabl 1b: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd Preswyl, ar 1 Hydref 2020..... 14

Graff 1b: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd Preswyl, ar 1 Hydref 2020..... 15

Tabl 1c: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl..... 16

Graff 1c: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl..... 17

Tabl 1d: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd preswyl.....	18
Graff 1d: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd preswyl.....	20
Tabl 1e: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan, %, yn ôl Mis Gwahodd	21
Tabl 1f: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl y Math o Ailalw.....	22
Tabl 1g: Cwmpas a nifer y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol.....	22
Tabl 2a: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd preswyl.....	24
Tabl 2b: Cyfanswm nifer y cyfranogwyr a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd preswyl	25
Tabl 3a: Profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd Preswyl – pecyn FOBt.....	26
Tabl 3b: Profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd Preswyl – ail becyn profi i gadarnhau.....	26
Tabl 3c: Profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd Preswyl – Pecyn FIT Hylifol.....	27
Tabl 3d: Cyfanswm y profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd Preswyl – Cyfanswm	27
Tabl 4: Amser aros ar gyfer canlyniadau prawf sgrinio, o dderbyn y prawf hyd at ganlyniad wedi'i awdurdodi	29
Tabl 5: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeo/sigmoidosgopi hyblyg yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl.....	30
Tabl 6: Cyfraddau canfod Canser / Polyp / Adenoma Cymru Gyfan mewn colonosgopi mynegeo/sigmoidosgopi hyblyg	31

1 Cyflwyniad

Dyma'r seithfed adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Sgrinio Coluddion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu data ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Cafodd Sgrinio Coluddion Cymru ei lansio ym mis Hydref 2008 gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy'n marw o ganser y coluddyn yng Nghymru o 15% erbyn 2020 yn y grŵp o bobl a wahoddir i gael eu sgrinio.

Nod y rhaglen sgrinio coluddion yw nodi canser yn gynnar pan fydd triniaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus a hefyd i gael gwared ar dyfiannau cyn-ganseraidd. Yn y flwyddyn 2019-20 rhoddodd Sgrinio Coluddion Cymru ddiagnosis o ganser y coluddyn i 240 o bobl a thynnwyd polypau ar gyfer 1,414 o gyfranogwyr.

Nododd Adroddiad Blynyddol 2020 o Archwiliad Canser y Coluddyn Cenedlaethol¹ fod 10% o gleifion a gafodd diagnosis o ganser y coluddyn eu hatgyfeirio drwy raglenni sgrinio yng Nghymru a Lloegr. Roedd gan gleifion a ganfuwyd drwy sgrinio glefyd llai datblygedig ac roeddent yn fwy heini ar y cyfan. O ganlyniad, cafodd 86% o gleifion a gafodd ddiagnosis drwy sgrinio driniaeth iachaol o gymharu â 50% a gyflwynodd fel argyfwng.

Ym mis Mawrth 2020, gwnaed y penderfyniad anodd i oedi rhai o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys Sgrinio Coluddion, mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cafodd gwahoddiadau eu hoedi ar 20 Mawrth 2020 felly effeithiodd hyn ar gyfran fach iawn yn unig o'r flwyddyn 2019-20. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw becynnau sgrinio a gafwyd yn y labordy ar ôl dydd Gwener 3 Ebrill 2020 eu profi, gan fod gweithdrefnau sgrinio colonosgopi wedi dod i ben ledled Cymru, felly gallai hyn fod wedi effeithio ar gyfranogwyr a wahoddwyd tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd.

1.1 'Negeseuon allweddol' i'r cyhoedd

- Mae sgrinio'r coluddyn yn lleihau eich risg o farw o ganser y coluddyn
- Gwahoddir dynion a menywod 60 i 74 oed i gymryd rhan bob dwy flynedd
- Efallai y byddwch yn teimlo'n dda hyd yn oed os oes gennych ganser cynnar y coluddyn. Mae canfod canser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i chi oroesi
- Mae sgrinio coluddion yn defnyddio prawf am ddim gan y GIG y gellir ei gwblhau'n hawdd yn eich cartref eich hun
- Bydd sgrinio yn methu rhai canserau, ac ni ellir gwella rhai canserau

- Eich dewis chi yw cymryd rhan mewn sgrinio'r coluddyn. Os cewch eich gwahodd i gael eich sgrinio, rydym yn eich annog i ddarllen y pecyn gwybodaeth yn ofalus i'ch helpu i wneud eich penderfyniad

¹ 2020 NBOCAP <https://www.nboca.org.uk/content/uploads/2020/12/NBOCA-2020-Annual-Report.pdf>

1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus a'i harwain gan Bennaeth Rhaglen. Mae'r rhaglen sgrinio coluddion yn cael ei chyflawni gan staff amlddisgyblaethol, gan gynnwys colonosgopyddion sgrinio, patholegwyr, radiolegwyr, staff nyrsio, gweinyddol a labordy. Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan Gynghorwyr Sicrhau Ansawdd ar gyfer colonosgopi, patholeg, biocemeg, radioleg a llawfeddygaeth.

1.3 Llwybr sgrinio

Oherwydd pandemig y coronafeirws a'r oedi o ran cynnig endosgopi ar ddechrau'r pandemig, gwnaethom oedi gwahoddiadau ar 20 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r rhaglen ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 a dyma'r cyfnod cyn y pandemig i raddau helaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru gyflwyno prawf sgrinio newydd yn raddol (y Prawf Imiwnocemegol mewn Carthion hylifol) rhwng mis Ionawr a mis Medi 2019. O fis Medi 2019 cafodd y pecyn prawf newydd eu weithredu'n llawn a'i gynnwys ym mhob gwahoddiad. Mae'r pecyn prawf newydd hwn yn haws i'w gwblhau gan ei fod yn un sampl i gyfranogwyr ei gymryd yn hytrach na thair. Y gobaith yw y bydd cyflwyno'r prawf newydd hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio ac annhegwch o ran nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio. Er bod gwaith arall ar gynyddu nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio wedi bod yn parhau, mae'r ffaith bod y ganran wedi cyrraedd y safon 60% eleni wedi'i briodoli yn bennaf i'r newid hwn o ran y math o brawf. Mae'r data a gyflwynir yn Adrannau 3.3 a 3.4 yn cyfeirio at y prawf sgrinio blaenorol (Guaiac) a'r prawf sgrinio newydd (Imiwnocemegol).

Nodir cyfranogwyr cymwys o System Demograffig Cymru a'u gwahodd i gael eu sgrinio. Caiff dynion a menywod 60 i 74 oed eu gwahodd bob dwy flynedd.

Mae'r gwahoddiad yn seiliedig ar ddyddiad geni ac mae'n cynnwys llythyr a phecyn gwybodaeth ynghyd â'r prawf i'w gwblhau. Y prawf sgrinio sylfaenol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd naill ai prawf Gwaed Cudd yn yr Ysgarthion (FOBT) Guaiac neu brawf

Imiwnocemegol mewn Carthion hylifol (FIT hylifol). Anfonir y prawf at bobl gymwys drwy'r post i'w gwblhau gartref a'i dychwelyd i'r labordy sgrinio canolog drwy'r post yn yr amlen ragdaledig a ddarperir.

Mae pobl â chanlyniadau prawf sgrinio negyddol yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd a'u gwahodd eto i gael eu sgrinio ddwy flynedd yn ddiweddarach, os ydynt yn parhau yn yr ystod oedran cymwys. Anfonir ail brawf mwy sensitif at y rhai sydd â chanlyniadau amhendiant i gadarnhau presenoldeb gwaed yn y sampl o ysgarthion.

Gwahoddir cyfranogwyr â chanlyniadau positif i gael asesiad o'u ffitrwydd ar gyfer colonosgopi gydag Ymarferwyr Sgrinio, sy'n nyrsys a leolir mewn ysbytai ledled Cymru. Cynhelir y rhan fwyaf o'r asesiadau dros y ffôn, ond mae apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael ar gais neu os yw'r Ymarferydd Sgrinio o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.

Os ystyrir ei fod yn addas, cynigir colonosgopi i'r cyfranogwr ac, os caiff ei dderbyn, cynhelir hyn mewn ysbyty sy'n lleol i'r cyfranogwr. Yn dibynnu ar y canfyddiadau ar ôl colonosgopi, mae'r cyfranogwyr naill ai; yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd; yn cael eu rhoi ar raglen wylidwriaeth yn ôl nifer a maint y polypau a nodwyd ac a dynnwyd; neu'n cael eu hatgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol yn dilyn diagnosis o ganser.

Os nad yw cyfranogwr yn addas i gael colonosgopi, bydd sgan Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) yn cael ei gynnig fel arfer.

Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-coluddion-cymru/>

2 Penawdau ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod amser rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

- Cwmpas sgrinio coluddion ar 1 Hydref 2020 oedd 58.9%, sef cynnydd o'r flwyddyn flaenorol pan oedd y cwmpas yn 55.7%
- Roedd y cwmpas ar 1 Hydref 2020 yn amrywio o 58.4% ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Bae Abertawe i 59.5% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio coluddion i gyfranogwyr a wahoddwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 oedd 61.5%, sef cynnydd o'r flwyddyn flaenorol pan oedd y ganran yn 57.3%
- Roedd y ganran a gafodd brawf sgrinio yn 2019-20 yn amrywio o 60.9% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i 62.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Roedd y cwmpas a'r chyfraddau'r rhai a gafodd brawf yn uwch ymhlith menywod. Roedd y cwmpas yn 60.3% mewn menywod o gymharu â 57.5% mewn dynion, roedd canran y rhai a gafodd brawf sgrinio yn 62.6% mewn menywod o gymharu â 60.4% mewn dynion
- Roedd y cwmpas a'r ganran a gafodd brawf sgrinio hefyd yn uwch ymhlith y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (65.8% a 68.4% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â 50.0% a 52.3% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf)

Ar gyfer y cyfnod mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020:

- Cafodd 276,226 o gyfranogwyr eu gwahodd i gael prawf sgrinio'r coluddyn, ac ar gyfartaledd roedd 61.5% wedi manteisio ar y cynnig i gael eu sgrinio
- Cafodd 188,105 o brofion eu hawdurdodi ac o'r rhain roedd 0.5% wedi'u difetha a chafodd 2.7% arall eu gwrthod gan nad oedd modd eu profi
- Rhoddwyd canlyniad diffiniol ar gyfer 179,582 o brofion, ac o'r rhain roedd 98.5% yn negyddol ac roedd 1.5% yn bositif
- Cafodd 1.4% o'r holl brofion Gwaed Cudd yn yr Ysgarthion (FOBt) guaiac eu hawdurdodi gyda chanlyniad amhendiant, ac anfonwyd ail becyn prawf at y cyfranogwyr hyn

- Ar gyfer 99.5% o'r holl brofion cafodd llythyr canlyniad ei anfon at y cyfranogwr o fewn wythnos (llai na saith diwrnod calendr) i'w dderbyn gan y labordy
- Ledled Cymru, cynigiwyd triniaeth ddiagnostig (colonosgopi neu sigmoidosgopi hyblyg) i 49.1% o gyfranogwyr o fewn pedair wythnos i gysylltu â Sgrinio Coluddion Cymru i drefnu'r apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio. Mae hwn yn gynnydd o 41.0% yn y flwyddyn flaenorol
- Yn 2019-20, cynigiwyd triniaeth ddiagnostig i 85.7% o gyfranogwyr â chanlyniad sgrinio positif o fewn wyth wythnos o gymharu â 83.3% y llynedd
- Roedd presenoldeb yn y driniaeth ddiagnostig gyntaf yn 93.5% gyda 1,902 o gyfranogwyr yn mynd i'r driniaeth gyntaf
- Yn y driniaeth ddiagnostig gyntaf, y gyfradd canfod canser oedd 12.6%, y gyfradd canfod polyp oedd 74.3% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 58.6%
- Cafodd 240 o gyfranogwyr ddiagnosis o ganser a chanfuwyd polypau mewn 1,414 o gyfranogwyr a thynnwyd y polypau hyn
- Ledled Cymru, aethpwyd i 93.9% o sganiau Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT) a drefnwyd


3 Data

3.1 Cwmpas a Chanran y rhai a gafodd brawf

Tabl 1a: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2020

Bwrdd Iechyd	Cyfanswm			Menywod			Dynion		
	Cymwys	Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd	% Cwmpas	Cymwys	Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd	% Cwmpas	Cymwys	Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd	% Cwmpas
BIP Aneurin Bevan	98,205	58,360	59.4	49,771	30,182	60.6	48,434	28,178	58.2
BIP Betsi Cadwaladr	127,483	74,421	58.4	65,082	38,955	59.9	62,401	35,466	56.8
BIP Caerdydd a'r Fro	69,635	40,655	58.4	35,327	21,192	60.0	34,308	19,463	56.7
BIP Cwm Taf Morgannwg	73,160	43,250	59.1	37,203	22,330	60.0	35,957	20,920	58.2
BIP Hywel Dda	75,722	45,015	59.4	38,446	23,523	61.2	37,276	21,492	57.7
BI Addysgu Powys	28,474	16,943	59.5	14,371	8,887	61.8	14,103	8,056	57.1
BIP Bae Abertawe	64,618	37,761	58.4	33,218	19,734	59.4	31,400	18,027	57.4
Anhysbys	8,809	5,290	60.1	4,499	2,758	61.3	4,310	2,532	58.7
Cymru Gyfan	546,106	321,695	58.9	277,917	167,561	60.3	268,189	154,134	57.5


I gael disgrifiad o gyfrifiadau canran y rhai a gafodd brawf a chwmpas, gweler y diffiniadau yn adran 4.

Graff 1a: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2020

Tabl 1b: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd Preswyl, ar 1 Hydref 2020

Bwrdd Iechyd	C1 – amddifadedd lleiaf	C2	C3	C4	C5 – amddifadedd mwyaf	Cyfanswm
BIP Aneurin Bevan	66.7	63.1	60.7	56.6	51.6	59.4
BIP Betsi Cadwaladr	64.7	60.7	57.7	53.2	47.2	58.4
BIP Caerdydd a'r Fro	66.6	58.0	53.8	52.6	45.7	58.4
BIP Cwm Taf Morgannwg	67.6	63.6	59.7	57.8	53.0	59.1
BIP Hywel Dda	62.8	61.8	59.7	56.7	49.8	59.4
BI Addysgu Powys	66.0	59.8	59.1	53.7	49.0	59.5
BIP Bae Abertawe	65.0	61.1	58.7	56.4	50.4	58.4
Anhysbys	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	60.1
Cymru Gyfan	65.8	61.1	58.9	55.8	50.0	58.9

Noder: lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu Fwrdd Iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys a heb i ddangos.

Graff 1b: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd Preswyl, ar 1 Hydref 2020


Tabl 1c: Sgrinio Coluddion yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Y Safon: Isafswm o 60% o gyfranogwyr a wahoddwyd yn dychwelyd prawf wedi'i gwblhau o fewn chwe mis i'r gwahoddiad.

Bwrdd Iechyd	Cyfanswm			Menywod			Dynion		
	Cymwys	Ymatebwyd	% y rhai a gafodd brawf	Cymwys	Ymatebwyd	% y rhai a gafodd brawf	Cymwys	Ymatebwyd	% y rhai a gafodd brawf
BIP Aneurin Bevan	48,802	30,165	61.8	24,782	15,495	62.5	24,020	14,670	61.1
BIP Betsi Cadwaladr	63,997	38,979	60.9	32,757	20,351	62.1	31,240	18,628	59.6
BIP Caerdydd a'r Fro	34,687	21,152	61.0	17,664	11,032	62.5	17,023	10,120	59.4
BIP Cwm Taf Morgannwg	36,551	22,713	62.1	18,600	11,635	62.6	17,951	11,078	61.7
BIP Hywel Dda	37,816	23,536	62.2	19,088	12,153	63.7	18,728	11,383	60.8
BI Addysgu Powys	14,392	8,880	61.7	7,302	4,629	63.4	7,090	4,251	60.0
BIP Bae Abertawe	32,143	19,664	61.2	16,638	10,309	62.0	15,505	9,355	60.3
Anhysbys	4,657	2,897	62.2	2,379	1,500	63.1	2,278	1,397	61.3
Cymru Gyfan	273,045	167,986	61.5	139,210	87,104	62.6	133,835	80,882	60.4

Mae canran y rhai a gafodd brawf yn cynnwys cyfranogwyr a wahoddwyd am brawf sgrinio'r coluddyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Graff 1c: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20




Tabl 1d: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn, %, yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Bwrdd Iechyd	C1 – amddifadedd lleiaf	C2	C3	C4	C5 – amddifadedd mwyaf	Cyfanswm
BIP Aneurin Bevan	69.1	65.9	63.3	58.8	53.9	61.8
BIP Betsi Cadwaladr	67.7	63.2	60.5	55.1	49.1	60.9
BIP Caerdydd a'r Fro	69.2	61.3	56.5	55.3	47.8	61.0
BIP Cwm Taf Morgannwg	70.0	67.9	63.3	60.6	55.7	62.1
BIP Hywel Dda	64.9	64.8	62.4	60.2	51.9	62.2
BI Addysgu Powys	68.1	61.8	61.9	55.5	51.6	61.7
BIP Bae Abertawe	67.4	65.2	62.1	58.3	52.9	61.2
Anhysbys	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	62.2
Cymru Gyfan	68.4	64.0	61.8	58.2	52.3	61.5

Noder: lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu Fwrdd Iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys ac nid yw'n cael ei ddangos.

Gwelwyd cynnydd o ran canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ystod 2019-20 i 61.5% o gymharu â 57.3% yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynyddu canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar draws y boblogaeth yn ogystal ag yn benodol mewn grwpiau lle mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio yn isel.

Graff 1d: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn, %, yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Tabl 1e: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan, %, yn ôl mis y gwahoddiad, 2019-20

Blwyddyn Gwahodd	Mis Gwahodd	Gwahoddwyd	Profwyd	Nifer a gafodd eu sgrinio %
2019	Ebrill	18,599	10,777	57.9
2019	Mai	29,553	16,895	57.2
2019	Mehefin	22,326	13,192	59.1
2019	Gorffennaf	21,481	13,002	60.5
2019	Awst	25,290	15,735	62.2
2019	Medi	21,617	14,248	65.9
2019	Hydref	22,508	14,389	63.9
2019	Tachwedd	27,066	16,928	62.5
2019	Rhagfyr	16,805	10,663	63.5
2020	Ionawr	21,058	13,177	62.6
2020	Chwefror	23,822	15,257	64.0
2020	Mawrth	22,920	13,723	59.9
Cyfanswm		273,045	167,986	61.5

Cafodd y tabl hwn ei ychwanegu eleni i archwilio a oedd y pandemig wedi cael effaith ar gyfranogiad ar ddechrau 2020, fel y gwelwyd mewn rhai rhaglenni eraill, ac a oedd yr oedi ym mis Mawrth 2020 wedi effeithio ar ganran y rhai a gafodd eu sgrinio. Nid oes tystiolaeth o effaith sylweddol ar y ganran yn sgil y pandemig, er bod canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn gostwng yn is na'r safon ym mis Mawrth.

Tabl 1f: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl Math o Ailalw, 2019-20

Blwyddyn	Rownd Bennaf - Gwahoddiad Cyntaf			Rownd Bennaf - Gwahoddiad(au) dilynol			Rownd Digwyddiad		
	Cymwys	Profwyd	% y rhai a gafodd brawf	Cymwys	Profwyd	% y rhai a gafodd brawf	Cymwys	Profwyd	% y rhai a gafodd brawf
2019-20	45,436	26,670	58.7	85,964	17,119	19.9	141,645	124,197	87.7

Tabl 1g: Cwmpas a nifer y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol

Blwyddyn	Cymwys	Profwyd	% Cwmpas	Cymwys	Profwyd	% y rhai a gafodd brawf
2012-13				266,693	128,583	48.2
2013-14	528,794	264,446	50.0	280,192	147,378	52.6
2014-15	533,294	268,257	50.3	254,139	129,118	50.8
2015-16	540,022	279,308	51.7	281,082	152,794	54.4
2016-17	545,623	281,321	51.6	274,738	146,592	53.4

2017-18	550,971	294,121	53.4	283,106	157,594	55.7
2018-19	555,549	309,303	55.7	280,556	160,652	57.3
2019-20	546,106	321,695	58.9	273,045	167,986	61.5

Dim ond chwe blynedd o ddata cwmpas a gyflwynir oherwydd newid mewn diffiniad yn 2013-14.

Mae'r cwmpas wedi dangos tuedd sy'n gwella a nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio eleni yw'r uchaf a gyflawnwyd gan y rhaglen

3.2 Cyfranogwyr a wahoddwyd

Tabl 2a: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Bwrdd Iechyd	Menywod				Dynion			
	60-64 oed	65-69 oed	70-74 oed	Cyfanswm y Menywod a Wahoddwyd	60-64 oed	65-69 oed	70-74 oed	Cyfanswm y Dynion a Wahoddwyd
BIP Aneurin Bevan	10,221	6,542	8,235	24,998	10,331	6,403	7,611	24,345
BIP Betsi Cadwaladr	13,096	8,854	11,082	33,032	12,805	8,325	10,518	31,648
BIP Caerdydd a'r Fro	7,651	4,706	5,488	17,845	7,788	4,491	5,037	17,316
BIP Cwm Taf Morgannwg	7,672	4,888	6,206	18,766	7,522	4,817	5,867	18,206
BIP Hywel Dda	7,860	5,104	6,307	19,271	7,641	5,218	6,127	18,986
BI Addysgu Powys	2,921	2,050	2,406	7,377	2,833	1,976	2,395	7,204
BIP Bae Abertawe	6,934	4,334	5,494	16,762	6,717	4,110	4,919	15,746
Anhysbys	1,069	671	659	2,399	1,000	674	651	2,325
Cymru Gyfan	57,424	37,149	45,877	140,450	56,637	36,014	43,125	135,776

Tabl 2b: Cyfanswm nifer y cyfranogwyr a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Bwrdd Iechyd	Cyfranogwyr			Cyfanswm a Wahoddwyd
	60-64 oed	65-69 oed	70-74 oed	
BIP Aneurin Bevan	20,552	12,945	15,846	49,343
BIP Betsi Cadwaladr	25,901	17,179	21,600	64,680
BIP Caerdydd a'r Fro	15,439	9,197	10,525	35,161
BIP Cwm Taf Morgannwg	15,194	9,705	12,073	36,972
BIP Hywel Dda	15,501	10,322	12,434	38,257
BI Addysgu Powys	5,754	4,026	4,801	14,581
BIP Bae Abertawe	13,651	8,444	10,413	32,508
Anhysbys	2,069	1,345	1,310	4,724
Cymru Gyfan	114,061	73,163	89,002	276,226

Noder: Cafodd 43 o bobl y tu allan i'r bandiau oedran eu gwahodd rhwng y cyfnodau adrodd.

3.3 Profion a awdurdodwyd

Tabl 3a: Profion sgrinio Coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd preswyl – profion Gwaed Cudd yn yr Ysgarthion (FOBt) Guaic

Bwrdd Iechyd	Nifer y profion a awdurdodwyd - FOBt						Canran - FOBt				
	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif	Cyfanswm	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif
BIP Aneurin Bevan	203	521	439	14,218	27	15,408	1.3%	3.4%	3.0%	99.8%	0.2%
BIP Betsi Cadwaladr	198	604	593	18,553	34	19,982	1.0%	3.0%	3.1%	99.8%	0.2%
BIP Caerdydd a'r Fro	117	379	310	10,197	14	11,017	1.1%	3.4%	2.9%	99.9%	0.1%
BIP Cwm Taf Morgannwg	166	371	337	10,576	29	11,479	1.4%	3.2%	3.1%	99.7%	0.3%
BIP Hywel Dda	101	356	345	11,310	34	12,146	0.8%	2.9%	3.0%	99.7%	0.3%
BI Addysgu Powys	40	173	116	4,328	10	4,667	0.9%	3.7%	2.6%	99.8%	0.2%
BIP Bae Abertawe	125	353	345	9,179	15	10,017	1.2%	3.5%	3.6%	99.8%	0.2%
Anhysbys	11	43	31	1,354	2	1,441	0.8%	3.0%	2.2%	99.9%	0.1%
Cymru Gyfan - FOB	961	2,800	2,516	79,715	165	86,157	1.1%	3.2%	3.1%	99.8%	0.2%

Tabl 3b: Profion sgrinio Coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd preswyl – ail becyn profi i gadarnhau

Bwrdd Iechyd	Nifer y profion a awdurdodwyd - ail becyn profi i gadarnhau						Canran - ail becyn profi i gadarnhau				
	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif	Cyfanswm	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif
BIP Aneurin Bevan	Dd/B	Dd/B	0	256	120	398	1.5%	4.0%	Dd/B	68.1%	31.9%
BIP Betsi Cadwaladr	Dd/B	Dd/B	0	340	155	530	2.1%	4.5%	Dd/B	68.7%	31.3%
BIP Caerdydd a'r Fro	Dd/B	Dd/B	0	204	74	290	1.4%	2.8%	Dd/B	73.4%	26.6%
BIP Cwm Taf Morgannwg	Dd/B	Dd/B	0	215	93	319	0.9%	2.5%	Dd/B	69.8%	30.2%
BIP Hywel Dda	Dd/B	Dd/B	0	210	94	316	1.3%	2.5%	Dd/B	69.1%	30.9%
BI Addysgu Powys	Dd/B	Dd/B	0	66	32	102	1.0%	2.9%	Dd/B	67.3%	32.7%
BIP Bae Abertawe	Dd/B	Dd/B	0	201	74	286	1.7%	2.1%	Dd/B	73.1%	26.9%

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2019-20
--------------------------------------	---

Anhysbys	Dd/B	Dd/B	0	Dd/B	Dd/B	29	3.4%	6.9%	Dd/B	53.8%	46.2%
Cymru Gyfan - FIT	35	75	Dd/B	1,506	654	2,270	1.5%	3.3%	Dd/B	69.7%	30.3%

Tabl 3c: Profion sgrinio Coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd preswyl – Pecyn FIT Hylifol

Bwrdd Iechyd	Nifer y profion a awdurdodwyd - FIT Hylifol						Canran - FIT Hylifol				
	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif	Cyfanswm	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif
BIP Aneurin Bevan	0	362	Dd/B	17,182	350	17,894	0.0%	2.0%	Dd/B	98.0%	2.0%
BIP Betsi Cadwaladr	0	455	Dd/B	22,295	416	23,166	0.0%	2.0%	Dd/B	98.2%	1.8%
BIP Caerdydd a'r Fro	0	315	Dd/B	11,835	224	12,374	0.0%	2.5%	Dd/B	98.1%	1.9%
BIP Cwm Taf Morgannwg	0	311	Dd/B	12,989	267	13,567	0.0%	2.3%	Dd/B	98.0%	2.0%
BIP Hywel Dda	0	302	Dd/B	13,312	238	13,852	0.0%	2.2%	Dd/B	98.2%	1.8%
BI Addysgu Powys	0	106	Dd/B	5,042	84	5,232	0.0%	2.0%	Dd/B	98.4%	1.6%
BIP Bae Abertawe	0	243	Dd/B	11,351	234	11,828	0.0%	2.1%	Dd/B	98.0%	2.0%
Anhysbys	0	42	Dd/B	1,699	24	1,765	0.0%	2.4%	Dd/B	98.6%	1.4%
Cymru Gyfan - FIT	0	2,136	Dd/B	95,705	1,837	99,678	0.0%	2.1%	Dd/B	98.1%	1.9%

Tabl 3d: Cyfanswm y profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad prawf a Bwrdd Iechyd preswyl – Cyfanswm

Bwrdd Iechyd	Nifer y profion a awdurdodwyd – CYFANSWM						Canran – CYFANSWM				
	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif	Cyfanswm	Difethwyd	Gwrthodwyd	Amhendant	Negyddol	Positif
BIP Aneurin Bevan	209	899	439	31,656	497	33,700	0.6%	2.7%	1.3%	98.5%	1.5%
BIP Betsi Cadwaladr	209	1,083	593	41,188	605	43,678	0.5%	2.5%	1.4%	98.6%	1.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	121	702	310	22,236	312	23,681	0.5%	3.0%	1.4%	98.6%	1.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	169	690	337	23,780	389	25,365	0.7%	2.7%	1.4%	98.4%	1.6%
BIP Hywel Dda	105	666	345	24,832	366	26,314	0.4%	2.5%	1.4%	98.5%	1.5%

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru	Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2019-20
--------------------------------------	---

BI Addysgu Powys	41	282	116	9,436	126	10,001	0.4%	2.8%	1.2%	98.7%	1.3%
BIP Bae Abertawe	130	602	345	20,731	323	22,131	0.6%	2.7%	1.6%	98.5%	1.5%
Anhysbys	12	87	31	3,067	38	3,235	0.4%	2.7%	1.0%	98.8%	1.2%
Cymru Gyfan	996	5,011	2,516	176,926	2,656	188,105	0.5%	2.7%	1.4%	98.5%	1.5%

Noder: Mae cyfraddau sydd wedi'u difetha a'u gwrthod yn cael eu cyfrifo fel canran o gyfanswm y canlyniadau.

Mae canlyniadau amhendant yn cael eu cyfrifo fel canran o'r canlyniadau amhendant, negyddol a phositif.

Mae cyfraddau negyddol a phositif yn cael eu cyfrifo fel canran o ganlyniadau negyddol a phositif yn unig.

O fis Ionawr 2019, gwnaethom gyflwyno prawf sgrinio newydd ar gyfer y rhaglen sgrinio coluddion yng Nghymru, sef y pecyn FIT hylifol. Cyflwynwyd hyn yn raddol, a chafodd 1 o bob 28 o gyfranogwyr sgrinio ar hap y pecyn FIT hylifol newydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020.

Tabl 3b – mae'n dangos y llwybr blaenorol a ddefnyddiodd brawf FIT fel ail brawf cadarnhau. Mae gwerthoedd sy'n is na 30 wedi'u hatal (Dd/B). Awdurdodwyd 2,270 o becynnau ac roedd 30.3% ohonynt yn bositif a 69.7% yn negyddol.

3.4 Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio

Y Safon: Anfonir y canlyniad prawf sgrinio at 95% o gyfranogwyr o fewn saith diwrnod i dderbyn pecyn prawf yn y labordy.

Tabl 4: Amser aros ar gyfer canlyniadau prawf sgrinio, o dderbyn y prawf hyd at ganlyniad wedi'i awdurdodi, 2019-20

Diwrnodau	FOB/ cFIT		FIT Hylifol		Cyffredinol	
	Nifer a awdurdodwyd	Canran y cyfanswm a awdurdodwyd	Nifer a awdurdodwyd	Canran y cyfanswm a awdurdodwyd	Nifer a awdurdodwyd	Canran y cyfanswm a awdurdodwyd
Yr un diwrnod	26,267	29.7%	95,365	95.7%	121,632	64.7%
1	20,979	23.7%	3,705	3.7%	24,684	13.1%
2	15,800	17.9%	11	0.0%	15,811	8.4%
3	8,660	9.8%	595	0.6%	9,255	4.9%
4	6,302	7.1%	1	0.0%	6,303	3.4%
5	5,994	6.8%	0	0.0%	5,994	3.2%
6	3,409	3.9%	1	0.0%	3,410	1.8%
7-13 diwrnod	940	1.1%	0	0.0%	940	0.5%

14 diwrnod a mwy	76	0.1%	0	0.0%	76	0.0%
CYFANSWM	88,427	100.0%	99,678	100.0%	188,105	100.0%

Ledled Cymru yn 2019-20, cafodd 99.5% o'r holl brofion eu hawdurdodi a rhoddwyd llythyr canlyniadau i'r cyfranogwr o fewn wythnos (7 diwrnod calendr) i'w derbyn gan y labordy. Dyma gynnydd o'r 83.9% a welwyd y llynedd.

3.5 Presenoldeb mewn colonosgopi

Tabl 5: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, 2019-20

Bwrdd Iechyd	Trefnwyd triniaeth mynegeio	Aethpwyd i'r driniaeth mynegeio	% Aethpwyd
BIP Aneurin Bevan	340	319	93.8%
BIP Betsi Cadwaladr	452	422	93.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	241	227	94.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	339	328	96.8%
BIP Hywel Dda	299	288	96.3%
BI Addysgu Powys	98	89	90.8%
BIP Bae Abertawe	242	208	86.0%
Anhysbys	23	21	91.3%
Cymru Gyfan	2,034	1,902	93.5%

3.6 Cyfraddau canfod

Tabl 6: Cyfraddau canfod Canser / Polyp / Adenoma Cymru Gyfan mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg, 2019-20

	Nifer a Ganfuwyd	Cyfanswm y Triniaethau Mynegeio	Canran a Ganfuwyd
Cyfradd canfod canser	240	1,902	12.6%
Cyfradd canfod polyp	1,414	1,902	74.3%
Cyfradd canfod adenoma	1,114	1,902	58.6%

3.7 Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg o fewn pedair wythnos i Drefnu Apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio

Yn ystod y flwyddyn mis Ebrill 2019 tan fis Mawrth 2020, cynigiwyd triniaeth mynegeio i 2043 o gyfranogwyr a chynigiwyd dyddiad triniaeth i 1003 (49.1%) o fewn 4 wythnos i drefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol. Cynigiwyd dyddiad triniaeth i gyfanswm o 747 (36.6%) arall o fewn 4 wythnos ac 8 wythnos a chynigiwyd dyddiad triniaeth i 293 (14.3%) fwy nag 8 wythnos ar ôl trefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol. Mae amseroedd aros wedi gostwng ers 2018-19 lle cynigiwyd triniaeth mynegeio i 41.0% o gyfranogwyr o fewn pedair wythnos.

3.8 Presenoldeb mewn sganiau CT

Ledled Cymru, aethpwyd i 93.9% o sganiau CT a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 80.0% a 100% ar draws byrddau iechyd ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2019 tan fis Mawrth 2020.

4 Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

Cymwys

- Ar gyfer cyfrifo **cwmpas**, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar adeg cyflwyno adroddiad, nad ydynt wedi gorffen cael

gwahoddiad neu nad ydynt wedi'u hatal rhag cael gwahoddiad sgrinio coluddyn yn dilyn cael gwybod am ddiagnosis o gyflwr y coluddyn, symud i ffwrdd neu farwolaeth a rhwng yr ystod oedran gwahoddiad 60 i 74 oed.

- Ar gyfer cyfrifo **nifer y rhai a gafodd eu sgrinio**, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn gwahoddiad) ac a gafodd eu gwahoddi i sgrinio'r coluddyn yn ystod dyddiad y cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn neu wedi'u hatal rhag hynny yn dilyn diagnosis o gyflwr y coluddyn, symud i ffwrdd neu farwolaeth, o fewn chwe mis yn dilyn gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio

Tybiwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion wedi derbyn prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis yn dilyn eu gwahoddiad.

Cwmpas

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif y cyfranogwyr cymwys hynny y mae eu prawf a ddefnyddiwyd wedi'i awdurdodi o fewn dwy flynedd a hanner i'r dyddiad adrodd.

Amddifadedd

Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan fyddwch yn ystyried pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

Bwrdd Iechyd

Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

Mathau o becyn prawf

Prawf Gwaed Cudd yn yr Ysgarthion (FOBt) – cerdyn prawf sy'n seiliedig ar guaiac a gyhoeddwyd fel y prawf sgrinio sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o gyfranogwyr sgrinio yn ystod y cyfnod hwn.

Ail brawf sgrinio – Ail brawf i gadarnhau a roddwyd i gyfranogwyr a ddangosodd symiau bach o waed o'u profi gyda'r pecyn FOBt (y rhai â chanlyniadau amhendant).

Prawf Imiwnocemegol mewn Carthion Hylifol (FIT hylifol) – pecyn prawf newydd a gyflwynwyd o fis Ionawr 2019 i gyfran fach o'r boblogaeth sgrinio (h.y. 1 o bob 28 o gyfranogwyr).

Prawf a ddifethwyd

Prawf a ddifethwyd yw prawf nad yw ar gael i'w brofi naill ai gan y cyfranogwr neu'r labordy am resymau a ddiffinnir yn Llawlyfrau Sgrinio Coluddion Cymru ac Ansawdd Labordai e.e. dim dyddiad ar y prawf neu nid yw'r prawf wedi'i gwblhau'n dda gan y cyfranogwr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

Prawf a wrthodwyd

Prawf a wrthodwyd yw un sy'n cael ei wrthod ar gyfer profi gan y labordy am ei fod yn methu bodloni meini prawf penodol a ddiffiniwyd ar gyfer derbyn sampl sydd wedi'u dogfennu yn y Llawlyfr Ansawdd Labordy e.e. diffyg cyfatebiaeth rhwng yr enw a'r cod bar neu brawf a aeth heibio dyddiad terfyn y gwneuthurwr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

Prawf amhendant

Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o'r profion sgrinio'r coluddyn heb eu difetha a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

Prawf negyddol a phositif

Mae'r cyfraddau hyn wedi'u cyfrifo fel cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd fel canlyniadau negyddol a phositif – h.y. y profion hynny â chanlyniad diffiniol.

Polyp

Mae polyp yn dwf ar leinin y colon neu'r rectwm.

Adenoma

Mae adenoma yn dwf anfalaen sy'n gallu datblygu'n ganser.

Rownd Bennaf - gwahoddiad cyntaf (tabl 1e)

Gwahoddiad cyntaf yn y rownd bennaf yw'r tro cyntaf y gwahoddir person i gymryd rhan mewn sgrinio. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol am nad ydynt wedi'u gwahodd yn flaenorol.

Rownd bennaf - gwahoddiad dilynol (tabl 1e)

Gwahoddiad dilynol y rownd bennaf yw pan fydd person wedi'i wahodd yn flaenorol, ond nad yw wedi cymryd rhan mewn sgrinio yn flaenorol. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol ond maent wedi'u gwahodd yn flaenorol.

Rownd Digwyddiad (tabl 1e)

Y rownd digwyddiad yw pan fydd pobl sydd wedi'u gwahodd yn flaenorol, ac sydd wedi derbyn y cynnig, wedyn yn cael eu hailwahodd i gael eu sgrinio.

Colonosgopi

Colonosgopi yw archwiliad gweledol o'r tu mewn i'r colon â thiwb hyblyg, wedi'i oleuo (colonosgop) wedi'i fewnosod drwy'r rectwm. Yn ystod colonosgopi, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

Sigmoidosgopi Hyblyg

Sigmoidosgopi hyblyg yw archwiliad gweledol rhan is y coluddyn â thiwb hyblyg wedi'i oleuo a fewnosodir drwy'r rectwm. Yn ystod sigmoidosgopi hyblyg, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

Presenoldeb a chyfraddau canfod

Mae'r cyfraddau presenoldeb a chanfod (Tablau 5 a 6) yn adrodd ar driniaethau a drefnwyd yn y cyfnod adrodd. Cyfrifwyd amseroedd aros drwy ddefnyddio'r cyfranogwyr hynny â thriniaeth mynegeo a gynigiwyd gyntaf yn ystod y cyfnod adrodd. Efallai nad hon oedd y driniaeth yr aethant iddi, yn sgil dewis y cyfranogwr neu ffactorau eraill.

5 Tîm Cynhyrchu a Rhestr Cyn Rhyddhau

Tîm Cynhyrchu

Steve Court	Pennaeth y Rhaglen - Sgrinio Coluddion Cymru
Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio
Dr Sikha de Souza	Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus
Dr Ardiana Gjini	Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus
Helen Clayton	Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Richard Wakely	Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data
Holly Vizard	Dadansoddwr Gwybodeg a Data
Guy Stevens	Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data
Hannah Lindsay	Rheolwr Cyfathrebu
Diane Rawlings	Cynorthwydd Personol

Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg)

Ni chafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol